Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod Arbennig Y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mercher 2 Tachwedd 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | S Joy |
| P Lloyd | M W Locke | H M Morris |
| C L Philpott | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: M Bailey, V A Holland a B J Rowlands

---

## 19 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 20 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**21 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adnewyddu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – MBH**

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â MBH.

Esboniodd MBH yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd:**

a) Adnewyddu trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat MBH am flwyddyn.
b) Rhoi llythyr rhybuddio i MBH ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.
c) Ni chymerir unrhyw gamau pellach mewn perthynas â Thrwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat MBH.

**22 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am ganiatáu Trwydded Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat- MSR**

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, gyda chymorth y Swyddog Adrannol - Trwyddedu a Diogelwch Bwyd, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MSR.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MSR, yng nghwmni Mr A, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r mater ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid gwrthod cais MSR am drwydded yrru cerbydau hacni a hurio preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Ar ôl ystyried yn ofalus yr adroddiad a gyflwynwyd iddynt, y geirdaon a ddarparwyd yn flaenorol, y geirdaon ychwanegol a ddarparwyd yn y gwrandawiad, y cyflwyniadau a wnaed ar lafar a'r wybodaeth a ddarparwyd gan gynrychiolydd MSR a siaradodd hefyd ar ei ran, penderfynodd yr aelodau i wrthod cais MSR am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

Y rheswm dros wrthod oedd nad oedd yr Aelodau'n ystyried bod MSR yn berson diogel nac yn addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat ar ôl ystyried yr adroddiad a gyflwynwyd iddynt ac mewn perthynas â'r canllawiau, yn benodol pwyntiau 3.16, 3.28, 3.29, 3.30, 4.12, 4.16, 4.20, 4.26, 4.30

Daeth y cyfarfod i ben am 12.46pm

**Chair**